HSCCLD436

# Arwain y gwaith o fonitro polisïau, gweithdrefnau ac arferion mewn partneriaeth â theuluoedd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth arwain y gwaith o fonitro polisïau, gweithdrefnau ac arferion. Mae'n gofyn i chi hwyluso gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd er mwyn sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymarfer effeithiol. Mae hefyd yn gofyn i chi gymryd yr awenau wrth ymdrin â chwynion neu broblemau teuluol

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. arwain dulliau cyfathrebu effeithiol a modelu arferion da drwy weithio'n uniongyrchol â phlant neu bobl ifanc a theuluoedd
2. gweithio ag eraill i nodi a chynllunio newidiadau i weithdrefnau sy'n cynnwys teuluoedd yng ngofal, dysg a datblygiad plant neu bobl ifanc
3. datblygu polisïau cynhwysol sy'n adlewyrchu ac yn parchu gwahaniaethau diwylliannol, cefndirol ac ysbrydol
4. adolygu gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn cwrdd â gofynion deddfwriaethol, ansawdd a risg
5. arsylwi ar eraill yn gweithio â theuluoedd, a chynnig adborth adeiladol
6. gwerthuso sut mae arferion cyfredol yn cwrdd ag anghenion plant neu bobl ifanc a theuluoedd
7. defnyddio ymchwil a thystiolaeth i wella ymarfer a chefnogi datblygiad eraill
8. annog ymarfer myfyriol a hybu datblygiad proffesiynol parhaus
9. arwain y gwaith o roi polisïau a gweithdrefnau ar waith
10. cefnogi eraill drwy newid a gwelliant
11. cynnwys plant neu bobl ifanc a theuluoedd yn y gwaith o greu ac adolygu polisïau
12. cymryd yr awenau o ran diogelu drwy ddatblygu a hybu polisïau clir
13. defnyddio gweithdrefnau i arwain penderfyniadau a chefnogi eraill mewn sefyllfaoedd teuluol sensitif
14. cefnogi teuluoedd sy'n mynd drwy sefyllfaoedd anodd a helpu i ddatrys heriau
15. trafod materion sy'n codi o broblemau a chwynion, a chynnig atebion addas i'w datrys
16. asesu'r cymorth a roddir i blant neu bobl ifanc pan fydd problemau a chwynion yn effeithio'n uniongyrchol arnynt
17. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer monitro gweithdrefnau, polisïau ac arferion mewn partneriaeth â theuluoedd
18. meddyliwch ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth fonitro polisïau, gweithdrefnau ac arferion mewn partneriaeth â theuluoedd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. egwyddorion gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd, a sut i arwain dulliau cydweithredol
2. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma mewn partneriaeth â theuluoedd
3. y rhesymau dros gynyddu cyfranogiad teuluoedd a phlant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau, a’r ffyrdd o wneud hynny
4. y gwahanol strwythurau teuluol a gynrychiolir yn y gweithle a’r angen i werthfawrogi amrywiaeth
5. sut y gall credoau, gwerthoedd ac agweddau teuluol ddylanwadu ar hunaniaeth, hunanddibyniaeth ac ymddygiad
6. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar weithio mewn partneriaeth â theuluoedd
7. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi wrth weithio mewn partneriaeth â theuluoedd
8. sut mae cefnogi trefniadau cyfathrebu cynhwysol
9. sut mae ymateb i agweddau gwahaniaethol neu agweddau sy’n seiliedig ar stereoteipiau mewn ffyrdd sy’n cefnogi arferion cynhwysol gyda theuluoedd
10. sut mae datblygu a rhoi polisïau, gweithdrefnau ac arferion diogelu effeithiol ar waith
11. pwysigrwydd asesiadau risg a sicrhau ansawdd o ran cynnal amgylcheddau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc a theuluoedd
12. sut mae rheoli a datrys problemau a phryderon mewn ffyrdd sy'n deg ac yn sensitif i bawb sy'n ymwneud â hyn
13. egwyddorion arwain wrth feithrin amgylchedd gwaith cydweithredol a chadarnhaol
14. sut mae cefnogi a rheoli newid yn effeithiol yn y gweithle
15. sut mae datblygu polisïau cynhwysol sy'n parchu ac yn adlewyrchu diwylliant a chefndir plant a phobl ifanc a theuluoedd
16. sut mae sicrhau y rhoddir gwybod yn eang am bolisïau a gweithdrefnau a’u bod yn cael eu deall gan eraill
17. pwysigrwydd adolygu polisïau’n rheolaidd
18. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth weithio mewn partneriaeth â theuluoedd

19. sut mae arwain drwy esiampl, gan fodelu'r disgwyliadau a'r ymddygiadau yr hoffech chi eu gweld yn y gweithle
20. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i fonitro polisïau, gweithdrefnau ac arferion mewn partneriaeth â theuluoedd
21. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain y gwaith o fonitro polisïau, gweithdrefnau ac arferion mewn partneriaeth â theuluoedd
22. theorïau sy'n berthnasol i'r gwaith o fonitro polisïau, gweithdrefnau ac arferion mewn partneriaeth â theuluoedd
23. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain y gwaith o fonitro polisïau, gweithdrefnau ac arferion mewn partneriaeth â theuluoedd
24. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain y gwaith o fonitro polisïau, gweithdrefnau ac arferion mewn partneriaeth â theuluoedd
25. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth arwain y gwaith o fonitro polisïau, gweithdrefnau ac arferion mewn partneriaeth â theuluoedd, a sut i fynd i'r afael â hyn
26. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth fonitro polisïau, gweithdrefnau ac arferion mewn partneriaeth â theuluoedd

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD436

Arwain y gwaith o fonitro polisïau, gweithdrefnau ac arferion mewn partneriaeth â theuluoedd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD436 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Monitro Polisiau, Gweithdrefnau ac Arferion, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |